# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Deddfwriaeth yn dod i rym*

### 30 Y diwrnod y daw [[F1]Deddf gan Senedd Cymru] i rym

Pan na fo darpariaeth mewn deddfiad bod [[F1]Deddf gan Senedd Cymru] neu ddarpariaeth mewn [[F1]Deddf gan Senedd Cymru] yn dod i rym, daw'r Ddeddf neu'r ddarpariaeth i rym ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Deddf wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(8)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 30 mewn grym ar 11.9.2019 at ddibenion penodedig, gweler **a. 44(1)(c)**

**I2** A. 30 mewn grym ar 1.1.2020 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2019/1333, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 30.